Niwrowahaniaeth Cymru
Cyngor Rhieni a Gofalwyr

Neurodivergence Wales
Parents & Carers Advice

# Proses Asesu - Cwestiynau i’w Gofyn

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer cwestiynau y gallwch eu gofyn cyn, yn ystod ac ar ôl apwyntiad asesiad diagnostig eich plentyn.

**Cyn yr Apwyntiad Diagnostig**

Sut wyf yn dechrau’r broses ddiagnostig?
Pwy fydd yn yr apwyntiad?
Faint fydd y broses gyfan yn ei chymryd?
Beth mae’r broses yn ei olygu?
Faint o apwyntiadau fydd?
A allaf fynd a fy mhlentyn i’r apwyntiad?
Oes rhaid i mi fynd a fy mhlentyn i’r apwyntiad?
A fydd cyfle i siarad gyda gweithwyr proffesiynol heb i fy mhlentyn fod yno?
Pwy sy’n rhan o’r broses? Pa weithwyr proffesiynol?
A fyddant yn ymweld ag ysgol fy mhlentyn?
Beth fyddant yn ei ofyn i mi?
Oes angen i mi ddod ag unrhyw beth?
Pa wybodaeth sydd angen i mi ei hysgrifennu yn barod?
Pa adnodd asesu a ddefnyddir?
Gyda phwy y gallaf gysylltu os bydd gennyf gwestiynau?
Pa wahaniaeth fydd diagnosis yn ei wneud?
A fydd diagnosis yn effeithio ar fy mhlentyn yn y dyfodol?
A allaf barhau i ofyn am gymorth wrth aros am asesiad?

**Yn Ystod yr Apwyntiad Diagnostig**

Beth fydd yn digwydd nesaf?
Sut fyddaf yn gwybod beth yw'r canlyniad?
Sut y gwneir y penderfyniad?
Ar ôl yr Apwyntiad Diagnostig - Rhoi Diagnosis

Pa gymorth sydd ar gael nawr?
Gyda phwy allaf siarad am y diagnosis?
Sut wyf yn egluro'r canlyniad wrth fy mhlentyn?

**Ar ôl yr Apwyntiad Diagnostig - Ni Roddir Diagnosis**

Beth wyf yn ei wneud os byddaf yn anghytuno gyda'r penderfyniad?
Gyda phwy y gallaf siarad?
A allaf ofyn am ail farn?
Pa gymorth allaf ofyn amdano nawr?